

1. Rheoliadau Gweithiau Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliad 22 - penderfyniad cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol

- 1.1 Teitl:** Echdynnu Mwynau Morol yng Nghanoldiroedd y Gogledd (North Middle Grounds), Ardal 455/459
- 1.2 Cymeradwyaeth Reoleiddiol:** Rheoliadau Gweithiau Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd)
- 1.3 Gweithredwyr:** Severn Sands (Holdings) Limited
- 1.4 Rhif Cais y Drwydded Forol:** MMML1605
- 1.5 Lleoliad:** Ardal 455/459 Canoldiroedd y Gogledd, Môr Hafren

2. Mynegai

- 1 – Rheoliadau Gweithiau Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd)
- 2 – Mynegai
- 3 – Diben
- 4 – Cais
- 5 – Y Datganiad Amgylcheddol – Rheoliadau Gweithiau Morol 12 (1) (d)
- 6 – Hysbysiadau Cyhoeddus – Rheoliadau Gweithiau Morol 16 (2) (g)
- 7 – Ymgynghoriad – Rheoliadau Gweithiau Morol 17 (1) (a) (iv)
- 8 – Safleoedd a ddiogelir dan gyfraith Ewrop
- 9 – Materion i'w hystyried mewn perthynas â'r Datganiad Amgylcheddol, y cais am Drwydded Forol, a'r sylwadau a dderbyniwyd

3. Diben

- 3.1** Mae'r ddogfen hon yn cynnwys penderfyniad cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol o dan Rheoliad 22 Rheoliadau Gweithiau Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd), o ran cais am Drwydded Forol (cyfeirnod: MMML1605) a gyflwynwyd gan Severn Sands (Holdings) Ltd. Ategwyd y cais gan Ddatganiad Amgylcheddol. Mae'r Tîm Trwyddedu Morol wedi ystyried y cais a'r wybodaeth a gyflwynwyd i'w ategu ac rydym bellach yn gallu gwneud penderfyniad cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer Severn Sands (Holdings) Ltd.
- 3.2** Yn unol â Rheoliad 22 y Rheoliadau Gweithiau Morol, mae Tîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru, fel yr awdurdod priodol, wedi ystyried y cais, y datganiad amgylcheddol, a

sylwadau gan gyrrff ymgynghori ac aelodau o'r cyhoedd, ac wedi rhoi sylw i'r ddeddfwriaeth berthnasol. Yn dilyn casgliad a wnaed gan Asesiad Sgrinio Trawsffiniol, penderfynwyd na fyddai'n rhaid ymgynghori â gwladwriaethau eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

4. Cais

4.1 Mae Severn Sands (Holdings) Ltd yn gwneud cais am Drwydded Forol i barhau i echdynnu agregau morol o Ardaloedd 455/459, Canoldiroedd y Gogledd. Rhestrir manylion y cais hwn isod:

- Trwydded saith mlynedd
- Uchafswm y tunelledd blynyddol – 250,000
- Cyfanswm arfaethedig i'w echdynnu – 1,750,000
- Math o ddefnydd – Tywod
- Dull echdynnu – Treillong hopran sugno
- Ardaloedd gwaharddedig – I'r gogledd o'r ddwy ardal ac o gwmpas llongddrylliad y Mercia
- Monitro gweithredol – Cynhelir Dadansoddiad Maint Gronynnau a bathymetreg yn flynyddol.

5. Y Datganiad Amgylcheddol – Rheoliadau Gweithiau Morol 12 (1) (d)

5.1 Gwnaeth y Datganiad Amgylcheddol amlinellu effeithiau posibl y prosiect arfaethedig a drefnwyd o dan y penawdau canlynol:

5.2 Penodau technegol:

- Ansawdd dŵr a gwaddod;
- Cadwraeth natur;
- Rhywogaethau a chynefinoedd benthig;
- Ecoleg pysgod a physgod cregyn;
- Adareg forol ac arfordirol;
- Mamolion morol;
- Pysgodfeydd masnachol ac adloniadol;
- Llywio masnachol ac adloniadol;
- Archeoleg forol;
- Amddiffyn arfordirol ac amddiffynfeydd llifogydd;
- Ansawdd yr aer;
- Isadeiledd a defnyddwyr y môr eraill;
- Sŵn yn yr awyr a dirgryniad (dynol);
- Tirwedd/morlun a gweledolrwydd (gan gynnwys golau);
- Ecoleg ddaearol; ac
- Effeithiau cronol/cyfunol

- 5.3 Ystyrir bod y Datganiad Amgylcheddol yn bodloni gofynion Rheoliad 12 (1) (d) ac Atodlen 3 y Rheoliadau Gweithiau Morol.

6. Hysbysiadau Cyhoeddus – Rheoliadau Gweithiau Morol 16 (2) (g)

- 6.1 Cyhoeddwyd y rhain er mwyn hysbysu partïon sydd â diddordeb o'r gwaith arfaethedig a chynnig y cyfle i unrhyw bartïon neu aelodau o'r cyhoedd wneud sylwadau ar y cais yn ôl yr angen.
- 6.2 Cyhoeddwyd y dogfennau cais fel a ganlyn:
- Cyhoeddwyd hysbysiad cyhoeddus a gyfieithwyd yn y Western Mail ar 1 Gorffennaf 2016 ac 8 Gorffennaf 2016.
 - Roedd y dogfennau cais ar gael i'r cyhoedd yn: Neuadd y Sir Cyngor Sir Fynwy, Radur, Brynbuga, NP15 1GA am 49 diwrnod yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad cyhoeddus cyntaf.
 - Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan y cyhoedd.

7. Ymgynghoriad – Rheoliadau Gweithiau Morol 17 (1) (a) (iv)

- 7.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cais am Drwydded Forol ar 10 Mehefin 2016 am gyfnod o 42 diwrnod. Fe'i hanfonwyd at y cyrff ymgynghori canlynol:
- 7.2 Arbenigwyr technegol Cyfoeth Naturiol Cymru, Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS), Y Weinyddiaeth Amddiffyn, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, Ystad y Goron, Awdurdodau Cynllunio Lleol Caerdydd a Chasnewydd, Awdurdodau Harbwr Lleol, Cymdeithas Porthladdoedd Prydain, Swyddogion Bioamrywiaeth Lleol Caerdydd a Chasnewydd, y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB), Trinity House, Cadw, Cangen Bysgodfeydd Llywodraeth Cymru, Swyddogion Gorfodi Morol, Natural England, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, ac Ymddiriedolwyr Harbwr Caerloyw.
- 7.3 Gwnaethpwyd sylwadau gan y sefydliadau canlynol: Arbenigwyr technegol Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, Natural England, Ystad y Goron, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Ymddiriedolwyr Harbwr Caerloyw, CEFAS, Cyngor Dinas Casnewydd, a'r Gymdeithas Hwyllo Frenhinol.
- 7.4 Tybiwyd nad oedd sylwadau i'w gwneud gan y sefydliadau nad oeddent wedi ymateb.

8. Safleoedd a ddiogelir dan gyfraith Ewrop

- 8.1 Mae'r cynnig arfaethedig wedi'i leoli o fewn safle a ddiogelir dan gyfraith Ewrop.
- 8.2 Ystyriwyd effaith y cynnig arfaethedig ar y Safleoedd Ewropeaidd canlynol, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried eu nodweddion a'u hamcanion cadwraeth wrth iddo benderfynu ar y drwydded:

- Ardal Cadwraeth Arbennig Aber Hafren
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig Aber Hafren
- Safle Ramsar Aber Hafren

8.3 Cynhaliwyd prawf o'r effaith sylweddol debygol a phenderfynwyd y gellid diystyru effeithiau sylweddol posibl ar nodweddion y Safleoedd Ewropeaidd a restrir uchod. Daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r cynnig arfaethedig, pan ystyriwyd ef ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad, yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle(oedd) Ewropeaidd dan sylw.

8.4 Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cynnwys rhagor o ddisgrifiadau manylach.

9. Materion i'w hystyried mewn perthynas â'r Datganiad Amgylcheddol, y cais am Drwydded Forol, a'r sylwadau a dderbyniwyd

9.1 Wrth i ni benderfynu ynglŷn â chydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol Rheoliad 22, rydym wedi ystyried y materion sydd wedi eu nodi ar ôl ystyried y Datganiad Amgylcheddol, sylwadau gan gyrff ymgynghori, ac unrhyw wybodaeth ategol ganlyniadol a roddwyd mewn ymateb gan yr ymgeisydd.

9.2 Mae'r materion perthnasol a amlygwyd yn y Datganiad Amgylcheddol a'r broses ymgynghori ac i ba raddau y maent wedi derbyn sylw yn cael eu manylu yn yr adran hon.

9.3 Ni wnaethpwyd unrhyw sylwadau gan y sefydliadau canlynol: Y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol, Ystad y Goron, Cyngor Dinas Casnewydd.

9.4 Prosesau ffisegol

9.4.1 Lleisiodd Natural England bryderon ynghylch trwch adnodd i'r gogledd o Ardal 459 am ei fod naill ai'n 0.5m neu'n cyrraedd y lefel honno. Yn Ffigur 3.2, adran 3.1 o'r Datganiad Amgylcheddol, nid oedd lefel trwch yr adnodd wedi cael ei chyfrifo hyd at ymyl yr ardal drwyddedu, ac roedd Natural England am wybod y rheswm dros hyn.

9.4.2 Ymatebodd yr ymgeisydd gyda siart trwch yr adnodd ddiweddaedig, a oedd yn cynnwys yr holl ardal drwyddedu. Trafododd y Tîm Trwyddedu Morol ag arbenigwyr technegol Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â'r posibilrwydd o gynnwys ardal waharddedig ychwanegol o gwmpas Ardal 459, lle'r oedd trwch yr adnodd yn 1m neu'n llai. Cysylltodd y Tîm Trwyddedu Morol â'r ymgeisydd ynghylch cynnwys ardal waharddedig newydd. Cytunwyd ardal waharddedig rhwng yr ymgeisydd a Cyfoeth Naturiol Cymru.

9.4.3 Y Tîm Trwyddedu Morol i gynnwys ardal waharddedig fel rhan o amodau'r drwydded pan fo trwch yr adnodd yn <1m.

9.4.4 Lleisiodd Natural England bryderon nad oedd Ardaloedd Carthu Gweithredol sefydledig wedi cael eu sefydlu ac y dylid sicrhau bod y rhain ar waith cyn caniatáu carthu. Atebodd yr ymgeisydd fel a ganlyn: trafodwyd gweithredu Ardaloedd Carthu Gweithredol ynghynt, ac fe'u diystyrwyd wedi hynny yn seiliedig ar ddealltwriaeth o ymddygiad y safle a system draethellau ehangach y Canoldiroedd (Middle Grounds) a Thiroedd Cymru (Welsh

Grounds). A Natural England yn fodlon ar yr ateb, rhoddodd arbenigwyr technegol Cyfoeth Naturiol Cymru y sylw: os penderfynwyd eisoes na ddefnyddio Ardaloedd Carthu Gweithredol, yna ni fydd llawer o ddefnydd i'w cynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol.

- 9.4.5** Y Tîm Trwyddedu Morol yn fodlon ar y ddau ateb, ac ni fydd Ardaloedd Carthu Gweithredol yn cael eu cynnwys yn rhan o amodau'r drwydded.
- 9.4.6** Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn nodi bod y nodwedd yn estyn o grŵp o wastadeddau tywod a thraethellau rhynglanw eraill, gan gynnwys Traeth Bedwyn (Bedwyn Sands), Traethellau Ynys Denny (Denny Shoals), Tiroedd Cymru a'r Canoldiroedd. Y consensws cyffredinol yw bod Canoldiroedd y Gogledd tua phen llif ar i fyny llwybr cludo tywod actif trwy Aber Hafren – proses sydd wedi'i gyrru gan y gorllanw trechol ac ar brydiau a gynyddir gan wyntoedd a thonau de-orllewinol mynychaf. Mae'r sefyllfa yn cyfrannu at ailgyflenwi ymddangosiadol y gwaddod carthedig o fewn un gylchred lanwol; fodd bynnag, mae traethellau Tiroedd Cymru a'r Canoldiroedd yn gweithredu fel ffynhonnell bosibl o ddeunyddiau i Ganoldiroedd y Gogledd ac ardaloedd eraill i fyny'r afon o'r safle echdynnu (fel y dangosir yn Ffigur 5.12). Nid yw ffigurau 5.13 a 5.14 yn estyn i'r ardaloedd derbyn, h.y. ardaloedd ymhellach i fyny'r aber, ar hyd y llwybrau cludo gwaddodion actif ymddangosiadol.
- 9.4.7** Gwnaeth Natural England ac arbenigwyr technegol Cyfoeth Naturiol Cymru gais am wybodaeth ynghylch sut y gallai newidiadau o ran cludo gwaddodion a newidiadau a welwyd o ran uchder gwely'r môr o fewn ac o amgylch y safle echdynnu ymwneud â newidiadau morffolegol neu ffisegol mewn ardaloedd sy'n bell o'r safle echdynnu ond y gallent ddibynnu ar gyflenwad gwaddodion yn symud i fyny'r aber. Atebodd yr ymgeisydd gydag atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol a oedd yn cynnwys detholiad o Adroddiad Monitro Traeth Bedwyn 2014 (AMPmer, 2015a), a ddaeth i'r casgliad canlynol: 'ar y cyfan, dangoswyd bod cyfartaledd ardal gynhyrchu Traeth Bedwyn sy'n gorwedd uwchben 4mCD yn uwch yn 2014 nag yn ystod unrhyw adeg archwilio flaenorol (rhwng 1998 a 2013).' O ganlyniad, ystyrir bod gweithgaredd echdynnu o fewn yr ardal drwyddedu yn annhebygol o arwain at newidiadau cysylltiol i gyflenwad y deunydd tywod mewn ardaloedd i fyny'r afon.
- 9.4.8** A Natural England yn fodlon ar yr atodiad, ni chymerodd y Tîm Trwyddedu Morol unrhyw gamau pellach.

9.5 Cadwraeth natur

- 9.5.1** Lleisiodd arbenigwyr technegol Cyfoeth Naturiol Cymru bryderon nad yw'r Datganiad Amgylcheddol yn cydnabod y ffaith bod yr ardal drwyddedu o fewn SoDdGA Aber Hafren, a gwnaethant ofyn i'r adrannau perthnasol gael sylw priodol. Atebodd yr ymgeisydd gydag atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol a diweddarwyd yr adrannau canlynol: 7.1.6 Safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol, 7.2 Asesu effeithiau, 7.3 Crynodeb a chasgliadau. Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon ar ddiweddariadau'r Datganiad Amgylcheddol.
- 9.5.2** Y Tîm Trwyddedu Morol yn fodlon ar yr ymateb; ni chymerwyd camau pellach.
- 9.5.3** Mae arbenigwyr technegol Cyfoeth Naturiol Cymru yn anghytuno â chasgliadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a gyflwynwyd fel atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol, sef nad oes llwybr effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar gyfer nodwedd dolydd arfor yr Iwerydd. Mae nodweddion traethellol y Canoldiroedd a Thiroedd Cymru yn darparu cysgod i gynefin y morfeydd heli rhynglanwol. Pe bai morffoleg y traethellau hyn yn newid, yna gallai lleihad yn yr effaith gysgodi ddylanwadu ar nodwedd dolydd arfor yr Iwerydd. Rhoddodd yr ymgeisydd atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol a oedd yn nodi'r canlynol: ymgwymerwyd â gwaith o fonitro'r traethellau yn flynyddol gan ddefnyddio data arolygon bathymetreg a data LiDAR yn yr awyr ers 2005 fel rhan o'r drwydded gyfredol. Mae'r gwaith monitro hwn wedi

canfod nad oes arwyddion bod y gweithgaredd carthu agregau presennol a pharhaus wedi neu, ar hyn o bryd, yn gostwng codiad Canoldiroedd y Gogledd. Arbenigwyr technegol Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon ar yr ateb ac yn argymhell bod gwaith monitro yn parhau trwy gydol y cyfnod trwydded nesaf.

9.5.4 Gwnaeth y Tîm Trwyddedu Morol ddiweddarau dogfen yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i ddangos pryderon arbenigwyr technegol Cyfoeth Naturiol Cymru. Cwblhawyd asesiad a ddangosodd na fyddai effaith arwyddocaol debygol ar y nodwedd. Y Tîm Trwyddedu Morol i gynnwys gofynion monitro fel rhan o amodau'r drwydded.

9.6 Cynefinoedd a Rhywogaethau Benthig

9.6.1 Codwyd y mater o gyflwyno ac ymledu rhywogaethau estron gan arbenigwyr technegol Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd pryderon nad oedd y Datganiad Amgylcheddol yn dangos sut mae deiliad y drwydded yn bwriadu glynu wrth unrhyw un o'r mesurau arfer da a nodwyd yn y ddogfen. Gofynnodd arbenigwyr technegol Cyfoeth Naturiol Cymru i'r ymgeisydd ddarparu manylion ynghylch sut mae'n bwriadu glynu wrth ddulliau arfer gorau ac y dylai fod yn ymwybodol bod gan Aber Hafren gofnodion hysbys o grancod blewog Tsieina ac ewinedd mochyn, y mae'r naill a'r llall yn Atodlen 9 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. Mae'r ymgeisydd wedi datgan y bydd yn cynhyrchu cynllun bioddiogelwch yn seiliedig ar risg ar gyfer gweithrediadau carthu. Arbenigwyr technegol Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon ar yr ymateb ac yn gofyn bod y cynllun bioddiogelwch yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo cyn dechrau'r gwaith carthu.

9.6.2 Y Tîm Trwyddedu Morol i rwymo'r ymgeisydd, fel rhan o amodau'r drwydded, i gynhyrchu a chyflwyno cynllun bioddiogelwch i'w gymeradwyo i arbenigwyr technegol Cyfoeth Naturiol Cymru cyn cychwyn y gwaith carthu.

9.7 Effeithiau cronol a chyfunol

9.7.1 Roedd Natural England yn dymuno tynnu sylw at y ffaith bod Ardal 526 Traeth Culver (Culver Sands) wrthi'n cael ei harchwilio ac, os bydd y cais am drwydded forol yn llwyddiannus, gallai fod yn weithgar o fewn oes Canoldiroedd y Gogledd. Y tunelledd blynyddol ar gyfer y safle bydd dwy filiwn o dunelli, gan fynd y tu hwnt i'r terfyn echdynnu agregau blynyddol a osodwyd gan y polisi dros dro ar garthu agregau morol. Gofynnodd Natural England i Ardal 526 gael ei hystyried fel rhan o asesiad yr effeithiau cronol a chyfunol. Rhoddodd yr ymgeisydd atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol a ddarparodd ddiweddariad i Adran 18.1. Casglodd y diweddariad, mewn perthynas â'r posibilrwydd o effeithiau cyfunol echdynnu agregau o safleoedd amryfal yn Aber Hafren, yr ystyrir ei bod yn hynod o annhebygol y bydd echdynnu agregau'n barhaus (ar y gyfradd gynyddol arfaethedig) yn arwain at unrhyw effaith arwyddocaol ar brosesau ffisegol yr ardal astudiaeth ehangach. Natural England yn fodlon ar yr ateb ond nid yw'n datrys y broblem pe bai Ardal 526, Traeth Culver, yn derbyn trwydded.

9.7.2 Y Tîm Trwyddedu Morol yn fodlon ar y wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd. Nid yw Ardal 526 wedi mynd heibio i'r cam archwilio eto, ac ystyrir hyn unwaith i drwydded gael ei derbyn.

Gwerthusiad Rheoleiddio a phenderfyniad cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol

Wrth ystyried y cais am echdynnu mwynau morol yn Ardal 455/459, Canoldiroedd y Gogledd, ystyriwyd y canlynol:

- Y Datganiad Amgylcheddol, gan gynnwys y mesurau lliniaru arfaethedig;
- Darpariaethau perthnasol Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009; ac
- Y sylwadau a dderbyniwyd amdanynt.


Mae'r Tîm Trwyddedu Morol wedi pennu bod effeithiau amgylcheddol y gwaith carthu mwynau morol wedi cael eu nodi, eu disgrifio a'u hasesu'n ddigonol, ac y gellir sicrhau mesurau lliniaru a fyddai'n ddigonol i alluogi'r cais am drwydded garthu i gael ei gymeradwyo.

Wedi'i gymeradwyo

Llofnod: 

Dyddiad: 28 Medi 2016

Cymeradwywyd gan: Eleanor Smart, Uwch Arweinydd y Tîm Trwyddedu – Trwyddedu Morol

Llofnod: 

Dyddiad: 23 Rhagfyr 2016